6.**Ydyn nhw'n anghofio?**
Tybed ydyn nhw'n anghofio pa Frenin ydi hwn. x 2
1.A welsoch chi'r holl redeg nôl a 'mlaen?
Ma'r ddwy hen chwaer yn nyts, ma hynny'n blaen.
Wrth chwilio am y ffrogia crandia'
Rhedeg am y persawr dryta' O!
Tybed ydyn nhw'n anghofio pa Frenin ydi hwn. x 2

2. A glywsoch chi'r holl weiddi nerth eu pen
A sgrechian mawr fel tasai'r byd ar ben?
Wrth drio colli pwysau'n handi,
Hynny cyn mynd draw i'r parti O!
Tybed ydyn nhw'n anghofio x 2 Pa Frenin ydi hwn. x 2